

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Crynodeb o'r Ddeddf

Deddf Cymwysterau Cymru 2015

Awst 2015

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



**Y Gwasanaeth
Ymchwil**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiuedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:
cynulliad.cymru/ymchwil

Mae copïau printiedig hefyd ar gael:

Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: Ymchwil@cynulliad.cymru

Twitter: [@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2015

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Rhif ymholiad: 15/1569

Rhif dogfen:15/035

Cynulliad Cenedlaethol Cymru Crynodeb o'r Ddeddf

Deddf Cymwysterau Cymru 2015

Awst 2015

Michael Dauncey

Cafodd Bil Cymwysterau Cymru Gydsyniad Brenhinol ar 5 Awst 2015. Mae'r Ddeddf yn trosglwyddo'r cyfrifoldeb am gymwysterau o Lywodraeth Cymru i gorff annibynnol newydd, 'Cymwysterau Cymru'. Bydd Cymwysterau Cymru yn dechrau cyflawni ei swyddogaethau rheoleiddio ar 21 Medi 2015.

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Y Gwasanaeth
Ymchwil

Cynnwys

1.	Cyflwyniad	1
2.	Cefndir	3
2.1.	Adolygiad o gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14-19 oed	3
2.2.	Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru	3
2.3.	Gwaith craffu cyn deddfu y Pwyllgor	3
3.	Yr hyn y mae'r Ddeddf yn ei wneud	5
3.1.	Un sefydliad penodol.....	6
3.2.	Blaenoriaethu cymwysterau	7
3.3.	Cyfyngu ar gymwysterau i un ffurf neu fwy a chymeradwyo un darparwr	8
3.4.	Gwella'r capasiti i ddatblygu cymwysterau yn strategol	11
4.	Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth	14
5.	Amcangyfrif o'r gost o weithredu'r Ddeddf	15
6.	Yr ymateb gan randdeiliaid	18
7.	Hynt y Bil drwy'r Cynulliad	20
7.1.	Cyfnod 1	20
7.2.	Cyfnod 2	21
7.3.	Cyfnod 3	21
7.4.	Cyfnod 4	22
7.5.	Cydsyniad Brenhinol.....	22
8.	Trefniadau cychwyn a phontio	23
9.	Adolygu'r broses o weithredu'r Ddeddf	25
9.1.	Cyflawni swyddogaethau statudol Cymwysterau Cymru.....	25
9.2.	Cyfrifoldeb Cymwysterau Cymru am adolygu'r system gymwysterau yng Nghymru, gan gynnwys ei rôl ei hun	25
9.3.	Mesur hyder y cyhoedd yn system gymwysterau Cymru	25
9.4.	Effeithiau sefydlu Cymwysterau Cymru	26

Deddf Cymwysterau Cymru

1. Cyflwyniad

Mae [Deddf Cymwysterau Cymru 2015](#) ('y Ddeddf') yn darparu ar gyfer **sefydlu Cymwysterau Cymru fel y corff rheoleiddiol annibynnol** sy'n gyfrifol am gydnabod cyrff dyfarnu ac adolygu a chymeradwyo cymwysterau yng Nghymru nad ydynt ar lefel gradd.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ceisio atgyfnerthu'r broses o oruchwylio cymwysterau a'r system gymwysterau yng Nghymru drwy **ddiwygio'r trefniadau presennol**. Dywedodd Huw Lewis AC, y Gweinidog Addysg a Sgiliau, mai'r nod oedd rhoi trefn ar y system, ei symleiddio a'i hatgyfnerthu.¹

Nod y Ddeddf yw mynd i'r afael â'r pedwar prif ddiffyg ar y system bresennol, fel y'u nodwyd gan Lywodraeth Cymru:

- y ffaith **nad oes yna un sefydliad penodol sy'n ymroddedig** i sicrhau effeithiolrwydd cymwysterau a'r system gymwysterau;
- **nid oes pwerau i flaenoriaethu cymwysterau** ac felly canolbwyntio gwaith rheoleiddio lle y mae ei angen fwyaf;
- **nid oes unrhyw bwerau i ddewis un darparwr ar gyfer cymhwyster penodol** i sicrhau bod dysgwyr ledled Cymru yn cymryd yr un cymhwyster; ac
- nid oes digon o gapasiti yn y trefniadau presennol i wella'r broses o **ddatblygu cymwysterau yn strategol**.

Mae'r Ddeddf yn rhoi'r **ddau brif nod canlynol** i Cymwysterau Cymru a bydd yn rhaid i'r rheoleiddiwr newydd weithredu'n unol â'r rhain wrth gyflawni ei swyddogaethau:

- Sicrhau bod cymwysterau, a system gymwysterau Cymru, yn effeithiol i ddiwallu **anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru**; a
- Hybu **hyder y cyhoedd** mewn cymwysterau ac yn system gymwysterau Cymru.

¹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 11-12\]](#), 11 Rhagfyr 2014

Cyflwynwyd Bil Cymwysterau Cymru gan Huw Lewis AC, y Gweinidog Addysg a Sgiliau, ar **1 Rhagfyr 2014**. Ar ôl mynd drwy bedwar cyfnod deddfwriaethol y Cynulliad, cafodd y Bil **ei basio** gan Aelodau'r Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn ar **16 Mehefin 2015**.

Cafodd Deddf Cymwysterau Cymru [Gydsyniad Brenhinol ar 5 Awst 2015](#).

Bydd Cymwysterau Cymru yn dechrau cyflawni ei swyddogaethau rheoleiddio ar 21 Medi 2015.

2. Cefndir

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru y ddeddfwriaeth hon ar ôl derbyn un o brif argymhellion (Argymhelliad 5) **Adolygiad Huw Evans o gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru**. Fodd bynnag, mae'r dull gweithredu o ran polisi wedi esblygu ers ymatebion cychwynol Llywodraeth Cymru ym mis [Rhagfyr 2012](#) a [Chwefror 2013](#), ac mae wedi'i lywio gan adolygiad diwydrwydd dyladwy, [ymarfer ymgynghori](#) a [gwaith craffu cyn deddfu](#) y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Mae'r ddeddfwriaeth hefyd yn rhan o'r broses o symud i ffwrdd o fodel tair gwald ar gyfer rheoleiddio cymwysterau (gyda Lloegr a Gogledd Iwerddon), ac mae Llywodraeth Cymru yn dweud bod y model hwnnw'n dibynnu'n sylweddol ar y rheoleidiwr yn Lloegr, a'r Swyddfa Rheoleiddio Cymwysterau ac Arholiadau (Ofqual).

2.1. Adolygiad o gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14-19 oed

Cafodd yr Adolygiad o gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru ei lansio gan Jeff Cuthbert AC, y Dirprwy Weinidog Sgiliau ar y pryd, ym mis Medi 2011. Gwnaeth y Bwrdd Adolygu, a gadeiriwyd gan Huw Evans OBE, **42 o argymhellion yn ei adroddiad terfyno**, [Adolygiad o gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru, Adroddiad terfynol ac argymhellion \(pdf 293KB\)](#), a gyhoeddwyd ar 28 Tachwedd 2012.

Roedd y rhan fwyaf o'r argymhellion yn yr adolygiad yn canolbwyntio ar ddiwygio cymwysterau eu hunain a sefydlu system cymwysterau genedlaethol i Gymru. Mae'r argymhellion hyn yn cael eu gweithredu drwy waith arall sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru ar wahân i'r Bil hwn.²

2.2. Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru [ymgynghoriad](#) rhwng 1 Hydref a 20 Rhagfyr 2013 yn amlinellu ei chynlluniau i sefydlu Cymwysterau Cymru. Cyhoeddwyd crynodeb o ymatebion ochr yn ochr â [datganiad](#) gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau, ar 2 Mehefin 2014.

2.3. Gwaith craffu cyn deddfu y Pwyllgor

Gwnaeth y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg waith craffu cyn deddfu ar gynigion Llywodraeth Cymru a chyhoeddodd [adroddiad o'i ganfyddiadau \(pdf 562KB\)](#) ym mis Gorffennaf 2014. Prif argymhelliad y Pwyllgor oedd y dylai'r **ddeddfwriaeth i sefydlu Cymwysterau Cymru roi swyddogaethau rheoleiddio**

²I gael rhagor o wybodaeth, gweler: Llywodraeth Cymru, Huw Lewis (y Gweinidog Addysg a Sgiliau), [Diwygio Cymwysterau](#), Datganiad Llafar, 4 Tachwedd 2014 a gwefannau Llywodraeth Cymru, [Cymwys am Oes](#) a [Cymwysterau Cymru](#)

yn unig, hynny yw, **byddai angen Bil ar wahân i ehangu cylch gwaith y corff i gynnwys swyddogaethau dyfarnu yn y dyfodol.**

Cyhoeddodd y **Gweinidog** mewn [llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor \(pdf 138KB\)](#) ar 17 Gorffennaf 2014 ei fod yn **derbyn y prif argymhelliad.**

3. Yr hyn y mae'r Ddeddf yn ei wneud

Mae naw rhan i'r Ddeddf, sy'n cynnwys cyfanswm o 61 adran a phedair Atodlen.

Mae Rhan 1 (adran 1) yn rhoi **troslong o brif ddarpariaethau'r Ddeddf**.

Mae Rhan 2 (adrannau 2-3) yn **sefydlu'r corff newydd**, sef 'Cymwysterau Cymru, gan nodi'r **prif nodau a'r materion y mae'n rhaid i'r corff roi sylw iddynt** wrth gyflawni ei swyddogaethau.

Mae Rhan 3 (adrannau 4-12) yn gwneud darpariaeth i Cymwysterau Cymru **gydnabod cyrff** sy'n dyfarnu cymwysterau yng Nghymru.

Mae Rhan 4 (adrannau 13-28) yn gwneud darpariaeth i Cymwysterau Cymru **gymeradwyo cymwysterau** a all fod wedi'i gyllido drwy arian cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys diffinio rhestr o '**gymwysterau blaenoriaethol**' gan Cymwysterau Cymru a Gweinidogion Cymru lle y gall Cymwysterau Cymru '**gyfyngu ar nifer y ffurfiau**' ar unrhyw gymhwyster blaenoriaethol sydd ar gael i'w chyllido drwy arian cyhoeddus i **un neu fwy**, a threfniadau i Cymwysterau Cymru **gymeradwyo un corff dyfarnu** i ddarparu un ffurf ar gymhwyster yn dilyn proses agored, teg a thryloyw/

Mae Rhan 5 (adrannau 29-33) yn gwneud darpariaeth i Cymwysterau Cymru **ddynodi cymwysterau** fel eu bod yn gymwys i'w cyllido drwy arian cyhoeddus. Cafodd y ddarpariaeth ei hychwanegu at y Bil drwy ddiwygiad wrth iddo fynd drwy broses ddeddfwriaethol y Cynulliad, gyda'r nod o wella prosesau **pontio a pharhad**. Mae'n golygu na fydd yn rhaid i Cymwysterau Cymru ymgymryd â'r broses gymeradwyo lawn ar gyfer pob cymhwyster cyn gynted â bod y corff newydd wedi'i sefydlu, ac mae'n **lleihau'r risg o amharu ar ddysgwyr**.

Mae Rhan 6 (adrannau 34-36) yn gwneud darpariaeth bellach o ran cydnabod a chymeradwyo, **gan ei gwneud yn ofynnol bod cyrsiau hyfforddiant** ar gyfer dysgwyr o dan 19 oed **yn arwain at gymhwyster a gymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru** os yw'r cyrsiau hynny wedi'u cyllido drwy arian cyhoeddus. Mae Rhan 5 hefyd yn **cadarnhau rolau** Cymwysterau Cymru a'r corff cyfatebol yn Lloegr, **Ofqual**, fel nad oes unrhyw gyfrifoldebau rheoleiddio yn cael eu **dyblygu**.

Mae Rhan 7 (adrannau 37-44) yn cynnwys y **darpariaethau gorfodi** sydd ar gael i Cymwysterau Cymru os bydd cyrff dyfarnu'n **methu â chydymffurfio** ag amodau cydnabod neu gymeradwyo.

Mae Rhan 8 (adrannau 45-54) yn cynnwys darpariaeth ynghylch **swyddogaethau eraill** Cymwysterau Cymru, gan gynnwys adolygu ac ymchwil, dyletswydd i baratoi datganiad polisi a gweithdrefnau cwyno.

Mae Rhan 9 (adrannau 55-61) yn cynnwys **darpariaeth gyffredinol**, yn cynnwys mynegai o dermau wedi'u diffinio a ddefnyddir yn y Ddeddf.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi pedwar prif ddiffyg yn y trefniadau presennol a bwriad y Bil yw mynd i'r afael â nhw. Yn yr un modd â'r wybodaeth a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn y Memorandwm Esboniadol, mae manylion am ddiben y Ddeddf a'r effaith y bwriedir iddi ei chael, fel y nodir isod, yn seiliedig ar y pedwar diffyg hwn. Mae cyfeiriadau at y Memorandwm Esboniadol yn seiliedig ar y [fersiwn ddiwygiedig a gyhoeddwyd ar ôl diwygio'r Bil ar ôl Cyfnod 2 \(pdf 1.13MB\)](#) oni nodir fel arall.

3.1. *Un sefydliad penodol*

Y prif ddiffyg cyntaf y mae'r Ddeddf yn ceisio mynd i'r afael ag ef yw:

Nid oes yna un sefydliad penodol sy'n ymroddedig i sicrhau effeithiolrwydd cymwysterau a'r system gymwysterau.

- Mae'r ddau brif nod y mae'r Bil yn eu pennu ar gyfer Cymwysterau Cymru yn ategu dull Llywodraeth Cymru o oresgyn y diffyg hwn.
- Mae **prif nodau** Cymwysterau Cymru (sef sicrhau bod y cymwysterau a'r system gymwysterau yn diwallu anghenion rhesymol dysgwyr ac yn ennyn hyder y cyhoedd) ynghyd â'r wyth **mater** y mae'n rhaid iddo roi sylw iddynt, wedi'u **cynllunio i sicrhau bod y fantais hirdymor i Gymru a'i dysgwyr yn parhau i fod yn brif ffocws i'r sefydliad.**
- Mae adran 53(1) o'r Ddeddf yn cynnwys darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i Cymwysterau Cymru **roi sylw hefyd i bolisiau perthnasol Llywodraeth Cymru.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn rhagweld y bydd Cymwysterau Cymru yn cynnal deialog reolaidd gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ar bolisiau, er enghraifft ynglŷn â'r cwricwlwm a sgiliau, ond mae'n datgan na fydd hyn yn tanseilio **annibyniaeth y sefydliad ar Lywodraeth Cymru.**
- Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Cymwysterau Cymru gyflwyno **adroddiad blynyddol i'r Cynulliad Cenedlaethol**, yn cynnwys gwybodaeth am sut y mae wedi arfer ei swyddogaethau o ran ei brif nodau a'i weithgareddau a'i flaenoriaethau arfaethedig ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

- Er na fydd Llywodraeth Cymru yn pennu blaenoriaethau blynyddol na chynllun busnes Cymwysterau Cymru, bydd yn cyflwyno **llythyr cylch gwaith blynyddol**³. Bydd hyn yn nodi unrhyw feysydd penodol y dylid canolbwyntio arnynt neu weithgareddau a fyddai'n ategu'r swyddogaethau craidd, yn ogystal â setlo'r **grant blynyddol** a delir i Cymwysterau Cymru am gyflawni ei swyddogaethau. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau o dan y Ddeddf i dalu grantiau ychwanegol hefyd i Cymwysterau Cymru.
- Oherwydd y bydd Cymwysterau Cymru yn cael ei ariannu o'r coffrau cyhoeddus yng Nghymru, bydd **dogfen fframwaith** yn cael ei llunio sy'n nodi ei gyfrifoldebau i Lywodraeth Cymru (yn enwedig ei gyfrifoldebau ariannol). **Uned noddi** yn Llywodraeth Cymru fydd yn gyfrifol am oruchwylio'r rhain.
- **Mae Atodlen 1** i'r Ddeddf yn rhoi manylion pellach am y **trefniadau ymarferol** ar gyfer y sefydliad newydd, megis aelodaeth, penodi'r cadeirydd a'r prif weithredwr, a chyfrifon ac archwiliadau.

3.2. *Blaenoriaethu cymwysterau*

Yr ail brif ddiffyg a nodwyd gan Lywodraeth Cymru oedd:

Nid oes unrhyw bwerau i roi blaenoriaeth i rai cymwysterau a thrwy hynny sicrhau bod modd canolbwyntio ar y cymwysterau y mae angen eu rheoleiddio fwyaf - sy'n golygu bod yna nifer fawr o gymwysterau yn cael eu rheoleiddio ond bod yr adnoddau yn brin i sicrhau bod y gwaith yn effeithiol.

Mae adran 13 o'r Bil yn rhoi dyletswydd ar **Cymwysterau Cymru a Gweinidogion Cymru i gytuno ar restr o gymwysterau**, neu ddisgrifiadau o gymwysterau, a fydd yn cael ei galw'n '**Rhestr o Gymwysterau Blaenoriaethol**' a'u cyhoeddi ar y cyd. Er mwyn i gymhwyster fod yn gymhwyster blaenoriaethol, mae'r Ddeddf yn nodi'r amod y dylai hyder y cyhoedd yn y cymwysterau hyn fod yn flaenoriaeth. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn egluro bod yn rhaid i gymwysterau Cymru a Gweinidogion Cymru:

fod yn fodlon bod hyder y cyhoedd ynddo yn flaenoriaeth, gan fod y cymhwyster yn arbennig o bwysig i ddysgwyr a/neu gyflogwyr yng Nghymru. (paragraff 69)

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn ychwanegu y bydd cael rhestr o gymwysterau blaenoriaethol yn galluogi Cymwysterau Cymru i **ganolbwyntio adnoddau cyhoeddus yn y ffordd fwyaf effeithiol** ar y cymwysterau mwyaf arwyddocaol, gan roi'r hyblygrwydd hefyd i ystyried a ddylid cymeradwyo cymhwyster nad yw'n flaenoriaeth ai peidio.

³Bydd y llythyr hwn y debyg i'r llythyr cylch gwaith a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru i Estyn bob blwyddyn. Fodd bynnag, er mwyn aldewyrchu'r ffaith mai'r Ddeddf, yn hytrach na Gweinidogion Cymru, sy'n pennu cylch gwaith Cymwysterau Cymru, yn ystod hynt y Bil, penderfynodd Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r term 'llythyr dyrannu grant' yn hytrach na 'llythyr cylch gwaith'. Nid yw'r Ddeddf ei hun yn cyfeirio at y llythyr, ond ar ôl Cyfnod 2, newidwyd y cyfeiriadau at 'llythyr cylch gwaith blynyddol' yn y Memorandwm Esboniadol i 'llythyr dyrannu grant blynyddol'.

Un o'r prif ystyriaethau i benderfynu a yw cymhwysterau yn gymhwyster blaenoriaethol ai peidio yw, lle y cyflwynir cymhwyster blaenoriaethol gan gorff dyfarnu cydnabyddedig i'w gymeradwyo, bod yn **rhaid** i Cymwysterau Cymru ystyried a ddylid cymeradwyo'r ffurf ar y cymhwyster i'w gyllido drwy arian cyhoeddus. O ran cymwysterau nad ydynt yn gymwysterau blaenoriaethol, ni fydd rheidrwydd ar Cymwysterau Cymru i ystyried cymeradwyo'r cymhwyster, ar yr amod bod y penderfyniad i wneud hynny'n glir ac yn unol â'i broses benderfynu gyhoeddedig.

Pan fydd cymwysterau yn gymhwyster blaenoriaethol, bydd Cymwysterau Cymru yn gallu cyfyngu ar nifer y cymwysterau a fydd ar gael i'w cyllido drwy arian cyhoeddus yng Nghymru i un neu fwy.

3.3. Cyfyngu ar gymwysterau i un ffurf neu fwy a chymeradwyo un darparwr

Y trydydd prif ddiffyg cyntaf y mae'r Ddeddf yn ceisio mynd i'r afael ag ef yw:

Nid oes unrhyw bwerau i ddewis un darparwr ar gyfer cymhwyster penodol i sicrhau bod dysgwyr ledled Cymru yn cymryd yr un cymhwyster.

Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan ers cryn amser ei bod yn awyddus i symud at **fanyleb unigol** o gymwysterau, megis cymwysterau TGAU ac UG a Safon Uwch. Er enghraifft, dywedodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn y gynhadledd genedlaethol ar gymwysterau ar 11 Rhagfyr 2013, ⁴wrth ystyried y cymwysterau TGAU Saesneg/Cymraeg Iaith a Mathemateg newydd, a'r cymhwyster TGAU Saesneg/Cymraeg Llenyddiaeth diwygiedig:

Bydd yr arholiadau TGAU newydd yn cael eu cyflwyno ym mis Medi 2015. Bydd dim fersiwn arall ar gael ar gyfer arian cyhoeddus yng Nghymru, dim ond y rhain. [fy mhwyslais i]

Holodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Gweinidog pam mai dim ond CBAC sy'n cynnig y cyrsiau TGAU newydd a diwygiedig yng Nghymru o fis Medi 2015, os nad oedd gan Lywodraeth Cymru bwerau ar y pryd i gyfyngu'r cymwysterau i un darparwr. Eglurodd y Gweinidog mai'r rheswm oedd am nad oedd cyrff dyfarnu eraill (sydd â'u marchnadoedd yn Lloegr yn bennaf) am gydweithio â CBAC ar ofyniad Llywodraeth Cymru am fanyleb unigol. Pe baent wedi gwneud hynny, ni fyddai Llywodraeth Cymru wedi gallu cyfyngu'r ddarpariaeth i un corff dyfarnu.

⁴Huw Lewis, y Gweinidog Addysg a Sgiliau, [***Araith i gynhadledd Darparu System Cymwysterau Cenedlaethol ar gyfer Cymru.***](#) Stadiwm Swalec, Caerdydd, 11 Rhagfyr 2013

Mae Adran 14 o'r Bil yn rhoi i Cymwysterau Cymru y pŵer i aseinio cymwysterau i gategori a elwir yn 'gymwysterau blaenoriaethol cyfyngedig', a gellir cyfyngu ar nifer y ffurfiau i gyn lleied ag un. Er enghraifft, gall Cymwysterau Cymru benderfynu nad yw ond yn bwriadu cymeradwyo un ffurf ar TGAU Daearyddiaeth, sy'n golygu mai dyma fyddai'r unig ffurf a fyddai'n gallu cael arian cyhoeddus yng Nghymru. Wrth wneud penderfyniad o'r fath, mae'n **rhaid i Cymwysterau Cymru fod yn fodlon** bod y cyfyngiad yn ddymunol, yng ngoleuni ei brif nod a'r **ddau amcan** canlynol:

- **Osgoi anghysondeb** rhwng ffurfiau gwahanol ar yr un cymhwyster (gallai hyn gynnwys lefel y cyrhaeddiad sy'n gysylltiedig â hwy).
- **Galluogi Cymwysterau Cymru i ddewis** rhwng cyrff dyfarnu gwahanol a all fod am ddatblygu ffurf newydd ar gymhwyster neu rhwng ffurfiau gwahanol ar gymwysterau sy'n cael eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

Mae'r Memorandwm Esboniadol (paragraff 74) yn nodi bod Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn anarferol ymhlith gwledydd Ewrop yn yr ystyr bod strwythur marchnad ar gyfer cymwysterau pobl ifanc mewn ysgolion a cholegau. Felly, drwy'r rhan hon o'r Bil, mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i **ddiddymu'r farchnad gymwysterau mewn ysgolion a gynhelir ar gyfer rhai cymwysterau yr ystyrir eu bod yn briodol**. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn pwysleisio'r her o sicrhau cydraddoldeb rhwng y gwahanol ffurfiau ar gymwysterau, aneffeithlonrwydd a grëwyd gan yr angen i arddangos cysondeb a'r farn bod rhai ffurfiau ar yr un cymwysterau y mae rhai pobl ifanc yn eu sefyll yn 'haws' na'r rhai sy'n cael eu sefyll gan eraill.

Yn gryno, mae Llywodraeth Cymru yn credu y bydd cyflwyno Rhestr o Gymwysterau Blaenoriaethol ac, o fewn y rhestr honno, rhestr o gymwysterau cyfyngedig, yn cyfrannu at **symleiddio'r system gymwysterau**. Ar gyfer rhai mathau penodol o bynciau, bydd hyn yn golygu un gyfres o gymwysterau. Yn ei araith ym mis Rhagfyr 2013, roedd y Gweinidog yn dadlau:

Pa bynnag gorff dyfarnu sy'n gwneud y gwaith, da ni'n symud tuag at un gyfres o arholiadau TGAU. Bydd pob dysgwr yng Nghymru yn cymryd pwnc TGAU yn gweithio i'r un fanyleb ac yn cymryd yr un asesiad. Bydd hyn yn helpu symleiddio'r system cymwysterau yn unol ag argymhellion yr adolygiad [Adolygiad Huw Evans o Gymwysterau 14-19]. Gydag un TGAU yn bob maes pwnc bydd Cymwysterau Cymru yn gallu canolbwyntio mwy o amser ac adnoddau ar wneud yn siŵr bod ansawdd ein TGAU yn safon byd, bod yr asesu yn drylwyr a bod y graddau'n deg, a bod darparwyr yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnyn nhw.

Mae'r Ddeddf yn cyflwyno **model comisiynu** a fydd yn galluogi i Cymwysterau Cymru gytuno ar drefniadau gyda chorff dyfarnu i ddatblygu ffurf newydd ar gymhwyster blaenoriaethol cyfyngedig, gyda'r bwriad o'i chymeradwyo. Pan na fydd Cymwysterau Cymru yn cytuno ar drefniadau gyda chorff dyfarnu i

ddatblygu'r cymhwyster, gall benderfynu rhwng ffurfiau gwahanol ar gymwysterau a gyflwynir iddo.

Felly, mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer proses lle mae cyrff dyfarnu yn cystadlu â'i gilydd i gael eu dewis gan Cymwysterau Cymru fel darparwr cymhwyster penodol. Mae Nodiadau Esboniadol (paragraff 38) ar gyfer adran 17 yn cyfeirio at 'sichau proses gystadleuol' i 'ddethol y cymhwyster/cymwysterau a gymeradwywyd'.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol, wrth ddewis corff dyfarnu i weithio gydag ef, neu ffurf ar gymhwyster i'w gymeradwyo, mae'n rhaid i Cymwysterau Cymru wneud hynny mewn ffordd '**agored, deg a thryloyw**', sydd wedi'i nodi mewn cynllun cyhoeddedig. Hefyd, rhaid i Cymwysterau Cymru hysbysu pob corff dyfarnu cydnabyddedig ei fod yn bwriadu cyfyngu ar gymhwyster blaenoriaethol a chynnal proses ddethol o'r fath.⁵

Er mai penderfyniad ar y cyd gyda Gweinidogion Cymru fydd y penderfyniad ar beth sy'n gymhwyster blaenoriaethol, **Cymwysterau Cymru yn unig fydd yn penderfynu a fydd cymhwyster yn gymhwyster blaenoriaethol cyfyngedig ai peidio**. Bydd Cymwysterau Cymru hefyd yn penderfynu pa gorff, neu gyrff dyfarnu, sy'n gallu darparu'r ffurf(iau) ar gymhwyster/gymwysterau sy'n gymwys i gael arian cyhoeddus yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd angen i Cymwysterau Cymru gymryd camau priodol i gael system benodol ar gyfer ei swyddogaethau comisiynu a chymeradwyo. Ni fydd yn digwydd yn awtomatig, ond mae Llywodraeth Cymru yn dweud bod y Ddeddf yn nodi ystod o bwerau a strwythurau corfforaethol i alluogi Cymwysterau Cymru i wneud hynny.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd y swyddogaethau sy'n cael eu rhoi i Cymwysterau Cymru, ochr yn ochr â'r prif nodau a bennwyd ar ei gyfer, yn galluogi i'r corff sefydlu **system gymwysterau sy'n fwy seiliedig ar alw, ac sy'n gweithio'n fwy er lles y dysgwyr**. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn dadlau:

Lle bydd Cymwysterau Cymru o'r farn ei bod yn briodol gwneud hynny, gellir newid system gymwysterau Cymru o fod yn un sy'n ymateb i'r cyflenwad i fod yn un sy'n ymateb i'r galw, gan sichau bod nifer llai o gymwysterau, a'r rheini'n gymwysterau gwell, yn cynnig gwerth am arian a dewis syml i ganolfannau a dysgwyr sy'n diwallu anghenion dysgwyr a'r economi mewn ffordd well. (paragraff 84)

⁵Mae Atodiad B i'r Memorandwm Esboniadol (paragraffau 69-70) yn esbonio mai CBAC fydd y darparwr unigol o ran cymwysterau cyffredinol, pan fydd y rhain wedi'u cyfyngu, hyd at o leiaf fis Medi 2020. Felly bydd y cynnod adolygu nesaf, pan fydd cyfle i gyflwyno'r dull comisiynu newydd, rhwng tair a phedair blynedd i ffordd.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn dweud:

Rhagwelir y bydd galluogi Cymwysterau Cymru i wneud trefniadau â chyrff dyfarnu (adran 15) i ddatblygu cymhwyster yn sicrhau y gellir teilwra cymwysterau yng Nghymru i'w hanghenion economaidd ac addysgol, gan eu cymharu'n drwyadl ar yr un pryd â chymwysterau cyfatebol mewn gwledydd cyfagos a gwledydd pellach i ffwrdd. (paragraff 85)

Yr awgrym yw bod y model comisiynu ar gyfer cymwysterau cyfyngedig yn fwy tebygol o gael ei fabwysiadu ar gyfer cymwysterau academaidd yn hytrach na chymwysterau galwedigaethol, gyda'r Memorandwm Esboniadol yn nodi:

Er y bydd rhai cymwysterau galwedigaethol yn parhau i fodoli o fewn marchnad lle mae mwy nag un darparwr, bydd yn bosibl i Cymwysterau Cymru benderfynu mai sicrhau un gyfres sydd fwyaf priodol ar gyfer cymwysterau eraill. (paragraff 88)

Fodd bynnag, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg nad oedd unrhyw reswm dros wahaniaethu rhwng cymwysterau academaidd a galwedigaethol a bod cyrsiau Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol Cychwynnol yn un o'r meysydd amlwg i'w dewis ar gyfer blaenoriaethu neu, o bosibl, cyfyngu cymwysterau.⁶ Dywedodd hefyd yn y Cyfarfod Llawn ar 2 Rhagfyr 2014 ei fod yn rhagweld y byddai Cymwysterau Cymru yn weithgar iawn yn y maes galwedigaethol.⁷

3.4. Gwella'r capasiti i ddatblygu cymwysterau yn strategol

Y pedwerydd prif ddiffyg y mae'r Ddeddf yn ceisio mynd ei oresgyn yw:

*Nid oes digon o gapasiti i hyrwyddo'r gwaith o **ddatblygu cymwysterau yn strategol** o fewn y trefniadau cyfredol - gan greu risg na chaiff cymwysterau Cymru eu parchu, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, gymaint â chymwysterau cenhedloedd eraill.*

Yn y [Memorandwm Esboniadol](#) (tudalen 22) sy'n cyd-fynd â'r Bil, nododd Llywodraeth Cymru bod pedair elfen i waith Cymwysterau Cymru:

- Monitro a Sicrhau Ansawdd
- Polisi Strategol ac Ymchwil
- Datblygu a Chomisiynu Cymwysterau
- Cydnabod a Chymeradwyo

⁶Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Cofnod y Trafodion \[paragraff 56\]](#), 11 Rhagfyr 2014

⁷Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Cyfarfod Llawn, [Cofnod y Trafodion \[15:43\]](#), 3 Rhagfyr 2014

Yn un o gyfarfodydd y Pwyllgor, eglurodd y Gweinidog sut y mae'n rhagweld y bydd Cymwysterau Cymru yn defnyddio ei swyddogaethau yn strategol:

'Employers and higher education institutions are all critical, ongoing partners in the ongoing conversations that will be part of the daily business of Qualifications Wales to be getting on with. That will be part of its remit and its day-to-day operation, and it will have a capacity way over and above the current set-up to be able to conduct that business. So, first of all, there will be a clear point of contact for employers, universities and other stakeholders. They will know where to go—**'There's one place to go; it's Qualifications Wales'**. Qualifications Wales will have a much greater capacity than the subsection of my department that currently regulates the situation.

Qualifications Wales will have a much more expansive conversation with employers. It would be possible to have developmental conversations over time about the kind of qualifications that might be necessary in some years in the future. You know, there is **no reason why Qualifications Wales should not be overseeing a landscape of development that goes 20 years into the future**. That is extraordinarily difficult at the moment for a temporary politician, like me, to have oversight of a narrower degree of functions, really.⁸ [fy mhwylais i]

Mae cyfatebiaeth cymwysterau yn un o'r materion y mae'n rhaid i Cymwysterau Cymru roi sylw iddo o dan y Ddeddf. Nododd Llywodraeth Cymru yn y Memorandwm Esboniadol (paragraff 98) sut y mae'n credu y bydd pwerau Cymwysterau Cymru o dan y Ddeddf a'r gwaith o gynnwys rhanddeiliaid yn sicrhau bod cymwysterau a lunnir ac a ddyfernir yng Nghymru yn 'cymharu'n bositif' â'r rheini yng ngweddill y DU a manau eraill.

Mae adran 46 yn gwneud darpariaeth i Cymwysterau Cymru gyflawni **gwaith ymchwil** ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig â chymwysterau ac mae Llywodraeth Cymru yn dweud y bydd hyn yn llywio'r gwaith o ddatblygu polisi rheoleiddio a hyrwyddo'r arfer gorau.

Mae'r Ddeddf yn darparu'r swyddogaethau i Cymwysterau Cymru **gydnabod cyrff dyfarnu a dyfarnu cymwysterau** sy'n gymwys i unrhyw gymhwyster academaidd neu alwedigaethol a ddyfernir yng Nghymru, ac eithrio graddau. Bydd Cymwysterau Cymru yn pennu meini prawf a bydd yn rhaid iddo gydnabod cyrff dyfarnu sy'n eu bodloni. Mae dau fath o gydnabod. Mae adran 8 yn darparu ar gyfer **cydnabod corff dyfarnu yn gyffredinol**, tra bod adran 9 yn darparu ar gyfer cydnabod corff sydd eisoes yn cael ei gydnabod yn gyffredinol i gael ei **gydnabod yn benodol** mewn ffordd sy'n benodol i gymhwyster neu ddisgrifiad o gymwysterau. Os bydd corff dyfarnu yn cael ei gydnabod yn gyffredinol gan Cymwysterau Cymru, gall ddewis 'eithrio' rhai o'i gymwysterau drwy nodi'r rhai nad yw'n dymuno cael cydnabyddiaeth gyffredinol amdanynt.

⁸ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 66-67\]](#), 11 Rhagfyr 2014

Os bydd cyrff dyfarnu'n ceisio cael cymeradwyaeth ar gyfer cymwysterau penodol, mae angen dilyn **proses wahanol** yn dibynnu a ydynt yn gymwysterau blaenoriaethol cyfyngedig, yn rhai blaenoriaethol anghyfyngedig neu'n gymwysterau nad ydynt yn rhai blaenoriaethol. Os bydd cymhwyster yn un blaenoriaethol cyfyngedig, bydd Cymwysterau Cymru yn ymgymryd â'r broses gomisiynu a amlinellir yn adran 3.3 o'r papur hwn uchod. Os yw'n un blaenoriaethol anghyfyngedig, mae'n rhaid i Cymwysterau Cymru ystyried a yw'n mynd i'w gymeradwyo ai peidio â chyhoeddi'r meini prawf a fydd yn sail i'w benderfyniad. Ar gyfer cymwysterau nad ydynt yn rhai blaenoriaethol, bydd Cymwysterau Cymru yn gallu penderfynu a yw'n mynd i ystyried ei gymeradwyo ai peidio, ond mae'n rhaid iddo gyhoeddi cynllun yn nodi'r ffactorau y mae'n debygol o'u hystyried wrth wneud penderfyniadau o'r fath.

Mae'r Ddeddf yn rhoi'r pŵer i Cymwysterau Cymru **bennu amodau pan fo'n cymeradwyo** cymwysterau, ac mae **darpariaeth ar gyfer gorfodi'r** amodau hyn. Mae'r Memorandwm Esboniadol (paragraff 96) yn nodi hefyd fod 'darpariaethau manwl' ar gyfer tynnu statws cymeradwy cymhwyster penodol yn ôl oddi wrth gorff, gan gynnwys sawl mesur diogelu ar wyneb y Ddeddf.

4. Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth

Mae'r Ddeddf yn cynnwys **pedair darpariaeth** sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth. Ym mhob achos, caiff y pŵer ei arfer drwy'r weithdrefn **gadarnhaol** ac eithrio'r gorchymyn cychwyn, lle nad oes angen unrhyw weithdrefn.

- **Mae adran 21(1)** yn darparu ar gyfer gwneud rheoliadau sy'n nodi'r **gofynion sylfaenol ar gyfer unrhyw gymhwyster** a gymeradwyir gan Cymwysterau Cymru. Er y bydd Cymwysterau Cymru yn gallu nodi gofynion o ran cynnwys ar gyfer y cymwysterau blaenoriaethol a gymeradwyir ganddo, mae'r Nodiadau Esboniadol yn egluro mai pŵer wrth gefn yw hwn er mwyn i Weinidogion Cymru wneud yn siŵr bod Cymwysterau Cymru yn sicrhau bod gofynion penodol yn cael eu bodloni.
- **Mae adran 38(3)** yn darparu ar gyfer rheoliadau sy'n nodi sut y bydd Cymwysterau Cymru yn cyfrifo'r **cosbau ariannol** y gall eu gosod ar gorff dyfarnu sydd wedi methu â chydymffurfio â'r amodau cymeradwyo.
- **Mae adran 59(1)** yn rhoi'r **hyblygrwydd** i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ar gyfer unrhyw ddarpariaeth atodol, darpariaeth gysylltiedig, darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol neu ddarpariaeth arbed y **gallai fod ei hangen er mwyn rhoi effaith lawn** i'r Ddeddf.
- **Mae adran 60(2)** yn gwneud darpariaeth i'r rhan fwyaf o ddarpariaethau'r Ddeddf (ac eithrio'r rhai y nodir y byddant yn cychwyn ar ôl i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol) **ddod i rym** drwy orchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru.

5. Amcangyfrif o'r gost o weithredu'r Ddeddf

Roedd y [Memorandwm Esboniadol \(fel y'i diwygiwyd ar ôl Cyfnod 2\) \(pdf 1.13MB\)](#) yn cynnwys Asesiad Effaith Rheoleiddiol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ochr yn ochr â'r Bil.

Mae Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif y bydd gweithredu'r Ddeddf yn costio **£42 miliwn** yn ystod y cyfnod pum mlynedd o **2015-16 hyd at 2019-20**. O gymharu, byddai'r opsiwn 'gwneud dim' lle byddai Gweinidogion Cymru yn cadw'r swyddogaethau rheoleiddio yn costio £20 miliwn.

Fodd bynnag, yng nghyd-destun y symudiad graddol oddi wrth fodel tair gwlad ar gyfer rheoleiddio cymwysterau yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, mae Llywodraeth Cymru yn dweud y byddai **costau ychwanegol hyd yn oed yn sgil cynnal y sefyllfa fel y mae**. Amcangyfrifir y byddai hynny'n arwain at gostau ychwanegol o £6 miliwn dros y pum mlynedd. Felly, mae Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif y byddai **sefydlu Cymwysterau Cymru a gweithredu'r ddeddfwriaeth yn arwain at gostau ychwanegol o £16 miliwn yn ystod y cyfnod pum mlynedd o 2015-16 hyd at 2019-20**.

Roedd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cydnabod bod cost ychwanegol uchel yn gysylltiedig â'r newidiadau yn sgil y Ddeddf, ac yn nodi barn Cabinet Llywodraeth Cymru bod hwn yn 'gost y gellir ei chyfiawnhau' mewn perthynas â chael system gymwysterau annibynnol yng Nghymru.⁹ Cred Llywodraeth Cymru:

[y Ddeddf] sy'n sicrhau'r gwerth gorau am arian gan ei fod yn cyflawni'r amcan yn llawn, ac yn y cyd-destun hwn mae yna gyfiawnhad dros y gost ychwanegol. Dylid cymharu hyn â (diffyg) gwerth tybiedig cadw'r sefyllfa fel y mae yng Nghymru (Opsiwn 1) neu â darparu fersiwn wannach ar gyfer Cymru o'r hyn sy'n ofynnol (Opsiwn 2).¹⁰

Wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, dywedodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau y **bydd y Ddeddf yn cael ei hariannu o adnoddau presennol**, a dywedodd nad oes unrhyw ddyraniad ychwanegol i'r Prif Grŵp Gwariant Addysg a Sgiliau ar gyfer ei darpariaethau.¹¹ Wrth edrych ar y manteision, fel yn achos y rhan fwyaf o ddeddfwriaeth, nid yw'r rhain wedi'u meintioli gan fod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi nad oedd unrhyw fuddiannau ariannol uniongyrchol yn gysylltiedig â'r ddeddfwriaeth. Yn y tymor hwy, bydd y gangen fasnachu a gaiff ei sefydlu fel rhan o Cymwysterau Cymru yn galluogi'r corff i gynhyrchu ei incwm ei hun. Fodd bynnag, roedd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn tybio y bydd Cymwysterau Cymru yn cael 100% o'i gyllid drwy gymorth grant Llywodraeth Cymru am y pum mlynedd gyntaf.

⁹ Llywodraeth Cymru, [Memorandwm Esboniadol Bil Cymwysterau Cymru \(fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod 2\) \(pdf 1.12MB\)](#), Mehefin 2015, paragraff 240

¹⁰ *Ibid*, paragraff 252

¹¹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Cofnod y Trafodion \[paragraff 118\]](#), 11 Rhagfyr 2014

Mae'r rhan fwyaf o'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf yn ymwneud â **chostau staff**. Mae'r rhain ar gyfer staff sy'n cyflawni swyddogaethau cymwysterau, staff corfforaethol a'r uned noddi. Mae costau sy'n gysylltiedig â **safle** hefyd, fel rhent a chyfleustodau, yn elfen sylweddol o gostau sefydlu ychwanegol a chostau parhaus y Ddeddf. Y brif ffynhonnell arall o gostau ychwanegol yw costau **TGCh**. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gostau sefydlu untro.

Bu Pwyllgor Cyllid y Cynulliad yn trafod goblygiadau ariannol y Bil yn ei gyfarfod ar 21 Ionawr 2015. Ar gais y Pwyllgor, darparodd y Gweinidog ragor o fanylion wedi hynny am y costau TGCh.¹²

Mae Tabl 1 yn crynhoi'r cyfanswm costau a'r costau ychwanegol amcangyfrifedig a ddaw yn sgil gweithredu'r Ddeddf.

¹²Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [*Llythyr gan Y Pwyllgor Cyllid at Y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Bil Cymwysterau Cymru CYPE\(4\)-04-15-Papur i'w nodi 4*](#), 5 Chwefror 2015
Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [*Llythyr gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Cyllid ar 21 Ionawr CYPE\(4\)-07-15-Papur i'w nodi 2*](#), 4 Mawrth 2015

Tabl 1: Cyfanswm costau a chostau ychwanegol amcangyfrifedig y Ddeddf, 2015-16 i 2019-2020

Costau	2015-16	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20	Cyfanswm
Costau sefydlu						
Costau refeniw						
Cost y prosiect a fyddai'n effeithio ar y sefydli	1,202,000					1,202,000
Staff - Corfforaethol	240,000					240,000
Staff - Nid cyflogau	294,000					294,000
Safle	232,000					232,000
TGCh	580,000					580,000
Costau cyfalaf						
TGCh	664,000					664,000
Gosodiadau a ffitiadau	226,000					226,000
Cyfanswm y costau sefydlu	3,438,000					3,438,000
Costau gweithredu						
Costau refeniw						
Staff - Corfforaethol	869,000	1,490,000	1,490,000	1,490,000	1,490,000	6,829,000
Staff - Swyddogaethau Cymwysterau	1,862,000	2,422,000	2,422,000	2,422,000	2,422,000	11,550,000
Staff - Nid cyflogau	95,000	163,000	163,000	140,000	123,000	684,000
Staff - Uned Noddi	102,000	203,000	203,000	203,000	203,000	914,000
Safle	436,000	748,000	748,000	748,000	748,000	3,428,000
TGCh	0	326,000	326,000	326,000	326,000	1,304,000
Arall, Cyfreithiol a Phroffesiynol	180,000	306,000	306,000	306,000	306,000	1,404,000
Costau cyfalaf						
TGCh	0	0	0	178,000	0	178,000
Costau eraill						
Dibrisiant	50,000	86,000	86,000	86,000	86,000	394,000
Gwariant Rhaglen Cymwysterau Cymru	2,380,000	2,380,000	2,380,000	2,380,000	2,380,000	11,900,000
Cyfanswm y costau gweithredu	5,974,000	8,124,000	8,124,000	8,279,000	8,084,000	38,585,000
Cyfanswm y costau	9,412,000	8,124,000	8,124,000	8,279,000	8,084,000	42,023,000
Costau ychwanegol o gymharu ag opsiwn 1a (status quo cyfredol)	5,406,000	4,118,000	4,118,000	4,273,000	4,078,000	21,993,000
Costau ychwanegol o gymharu ag opsiwn 1b (status quo realistig)	4,334,000	2,822,000	2,822,000	2,977,000	2,782,000	15,737,000

Ffynhonnell: Cyfrifiadau Gwasanaeth Ymchwil Llywodraeth Cymru, [Memorandwm Esboniadol \(fel y'i diwygiwyd ar ôl Cyfnod 2\) \(pdf 1.13MB\)](#), Mehefin 2015

6. Yr ymateb gan randdeiliaid

Fel rhan o'i waith craffu ar y Bil yng Nghyfnod 1 o broses ddeddfwriaethol y Cynulliad, cyhoeddodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg [gais am dystiolaeth](#).

Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio safbwyntiau ar gwestiynau fel yr angen am ddeddfwriaeth, a oedd Llywodraeth Cymru wedi nodi prif gyfyngiadau'r system bresennol yn gywir, prif nodau Cymwysterau Cymru a'r wyth mater y mae'n rhaid iddo roi sylw iddynt, rhwystrau posibl wrth weithredu'r Ddeddf a goblygiadau ariannol.

Roedd **cefnogaeth gyffredinol** i'r egwyddor o **drosglwyddo'r cyfrifoldeb** am reoleiddio cymwysterau oddi wrth y Llywodraeth a sefydlu **cordd annibynnol penodol** at y diben hwnnw. Roedd y safbwyntiau'n **tueddu i ganolbwyntio ar gwestiynau ymarferol** ynghylch sut y bydd y sefydliad newydd yn gweithio, beth sydd ei angen i sicrhau llwyddiant wrth gyflawni'r nodau, a manteision ac anfanteision y trefniadau newydd ar gyfer blaenoriaethu a chyfyngu cymwysterau.

O'r 26 o bobl a ymatebodd i'r ymgynghoriad, **roedd 17 yn cytuno'n bositif bod angen y ddeddfwriaeth**. Yn eu plith, roedd corff dyfarnu mwyaf Cymru, sef CBAC, a oedd yn gwrthwynebu cynllun cychwynol Llywodraeth Cymru i dderbyn argymhelliad Huw Evans yn llawn a sefydlu Cymwysterau Cymru fel rheoleiddiwr a dyfarnwr cymwysterau.¹³

Ni nododd dau o'r ymatebwyr farn glir a oedd angen deddfwriaeth ai peidio, a dywedodd un ymatebwr (y Cyngor Dyfarniadau mewn Gofal, Addysg ac Iechyd) nad oedd angen Bil oherwydd pryderon sylweddol ynghylch yr effaith debygol ar ddysgwyr.

Yn ogystal â CBAC, roedd chwe chorff dyfarnu arall yn cefnogi'r syniad o gael rheoleiddiwr annibynnol, ond roeddent yn pryderu am rai elfennau o'r Bil. Roeddent yn cynnwys dau gorff blaenllaw arall sy'n dyfarnu cymwysterau academiaidd, sef OCR a Pearson. At hynny, roedd tri chorff dyfarnu galwedigaethol yn dilyn arweiniad eu corff ambarél ([Ffederasiwn y Cyrff Dyfarnu \(pdf 666KB\)](#)), gan rybuddio am **effaith negyddol bosibl ar y farchnad gymwysterau yng Nghymru**.

¹³Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, croesawodd [CBAC \(pdf 107KB\)](#) 'ddoethineb' y penderfyniad i beidio â chynnwys swyddogaethau dyfarnu yn y ddeddfwriaeth hon, gan nodi iddynt eisoes fynegi pryderon am wneud un corff yn gyfrifol am swyddogaethau rheoleiddio a dyfarnu. Yn Memorandwm Esboniadol y Bil, cyfeiriodd Llywodraeth Cymru at y 'nifer sylweddol' o ymatebwyr i'r ymgynghoriad a fynegodd bryderon o'r fath. Fel rhan o'r gwaith craffu cyn deddfu ym mis Mai 2014, [dywedodd Huw Evans wrth y Pwyllgor \(pdf 190KB\)](#) y byddai angen uno CBAC a'r sefydliad newydd, Cymwysterau Cymru, er mwyn gwireddu gweledigaeth ei Adolygiad. Dywedodd Mr Evans: 'early discussions revealed the clear determination of the WJEC to retain its independence and identified a philosophical divide, which allied to the potential for legal challenge, made the initial vision very difficult to achieve' Dywedodd hefyd fod hynny wedi'i dderbyn yn gyndyn gan y Bwrdd Cyngori (y bu'n gadeirydd arno) a fu'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru cyn cyflwyno'r Bil.

Roedd **cytundeb cyffredinol** bod Llywodraeth Cymru wedi nodi'r **cyfyngiadau cywir** o ran y system bresennol ac roedd rhanddeiliaid hefyd yn teimlo'n gyffredinol fod y **prif nodau a'r wyth mater yn briodol**. Fodd bynnag, awgrymwyd sawl peth i'w ychwanegu at y rhestr, gan gynnwys cyfeirio'n benodol at **barch cydradd** rhwng cymwysterau galwedigaethol a rhai academiaidd, a hyrwyddo **cysondeb rhyngwladol**. Roedd Llywodraeth Cymru yn cytuno bod y materion hyn yn bwysig iawn, ond yn dadlau eu bod eisoes yn rhan o'r hyn a bennir yn y Ddeddf fel cylch gwaith Cymwysterau Cymru.

Roedd y safbwyntiau'n fwy cymysg ar yr adrannau o'r Ddeddf sy'n sefydlu'r prosesau ar gyfer **blaenoriaethu a chyfyngu cymwysterau**, gan adlewyrchu'r ffaith y bu cryn drafod ynghylch yr elfen hon o'r ddeddfwriaeth yn ystod y broses graffu.

Yn hytrach na chytuno neu anghytuno'n bendant â'r syniad y dylai Cymwysterau Cymru gynnal proses **gomisiynu** ar gyfer cymwysterau blaenoriaethol anghyfyngedig, roedd rhanddeiliaid yn pwysleisio pa mor bwysig yw sicrhau bod y broses yn **agored, yn deg ac yn dryloyw**. Roedd hynny'n awgrymu cefnogaeth fud i'r syniad o roi'r swyddogaethau hyn i Cymwysterau Cymru.

Ar y cyfan, roedd rhanddeiliaid o'r farn mai cyrff dyfarnu a fyddai'n cael eu heffeithio fwyaf gan y newidiadau yn sgil y Bil.

Dim ond nifer fach o rwystrau posibl i weithredu'r Bil a nodwyd, gan gynnwys:

- y **costau** sydd ynghlwm wrth sefydlu Cymwysterau Cymru mewn cyfnod o gynni;
- **materion staffio** ac adnoddau dynol;
- **heriau o ran trosglwyddo a chymharu** cymwysterau pe bai system benodol i Gymru;
- **ymateb cyrff dyfarnu** i'r trefniadau newydd; a
- sicrhau **hyder y cyhoedd ac ymgysylltu â rhanddeiliaid**.

7. Hynt y Bil drwy'r Cynulliad

Mae manylion am hynt y Bil drwy broses deddfwriaethol y Cynulliad ar y we ar y Pwyllgor [Plant, Pobl Ifanc ac Addysg](#). Mae crynodeb isod.

7.1. Cyfnod 1

Yng Nghyfnod 1 o broses deddfwriaethol y Cynulliad, gwnaed gwaith craffu ar y Bil gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Bu'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn trafod **egwyddorion cyffredinol** y Bil, tra bod y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn trafod **prïodoldeb y darpariaethau** yn y Bil, yn enwedig y rhai sy'n rhoi pwerau i Weinidogion wneud is-ddeddfwriaeth.

Cyflwynodd y ddau bwyllgor adroddiadau ym mis Mawrth 2015.¹⁴

Roedd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg eisoes wedi gwneud gwaith craffu cyn deddfu ar gynigion Llywodraeth Cymru i sefydlu Cymwysterau Cymru, ac roedd ei argymhellion yn ymwneud yn bennaf â materion y dylai Llywodraeth Cymru eu hystyried fel rhan o'i dull cyffredinol wrth ymdrin â pholisi yng nghyswllt y Bil. Fodd bynnag, argymhellodd y Pwyllgor sawl newid penodol i'r Bil ei hun, gan gynnwys **newid geiriad y ddarpariaeth sy'n pennu a yw cymwysterau'n gymwys i gael eu cyllido drwy arian cyhoeddus**.

Roedd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn galw am newid y cyfeiriad at 'fersiwn Gymreig o'r cymhwyster' er mwyn adlewyrchu bwriad polisi Llywodraeth Cymru mai dim ond cymwysterau a gymeradwyir neu a ddynodir gan Cymwysterau Cymru a ddylai fod yn gymwys i'w defnyddio ar gyrsiau sy'n cael eu hariannu'n gyhoeddus. Roedd y Pwyllgor y teimlo y byddai'r geiriad gwreiddiol yn awgrymu bod Cymwysterau Cymru yn gwneud mwy na chymeradwyo cymhwyster, er enghraifft bod angen i'r cymhwyster fod yn unigryw i Gymru neu'n wahanol i'r hyn a gynigir mewn manau eraill. Derbyniodd y Gweinidog yr argymhelliad hwn yng Nghyfnod 2, a diwygiwyd y Bil yn unol â hynny.

Roedd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn canmol y Gweinidog am ffordd y roedd y Bil wedi'i ddrafftio, gan ddod i'r casglid bod lefel briodol o fanylion ar wyneb y Bil a bod y nifer fach o bwerau gwneud rheoliadau yn glir a bod modd eu cyfiawnhau.

¹⁴ Children, Young People and Education Committee, [Qualifications Wales Bill: Adroddiad Pwyllgor Cyfnod 1 \(pdf 457KB\)](#), Mawrth 2015

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol: [Adroddiad ar y Bil Cymwysterau Cymru \(pdf 347KB\)](#), Mawrth 2015

Cymeradwywyd egwyddorion cyffredinol y Bil yn y Cyfarfod Llawn ar [24 Mawrth 2015](#).

7.2. Cyfnod 2

Paratôdd y Gwasanaeth Ymchwil gyhoeddiad cynharach ar wahân, [Bil Cymwysterau Cymru: Crynodeb o'r newidiadau a wnaed yng Nghyfnod 2 \(pdf 233KB\)](#), sy'n rhoi manylion y gwelliannau - y rhai llwyddiannus a'r rhai aflwyddiannus - a gyflwynwyd yng Nghyfnod 2.

Cyflwynwyd cyfanswm 76 o welliannau, a'r Gweinidog a gyflwynodd 55 ohonynt. Cytunodd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn â phob un o welliannau'r Gweinidog ar [30 Ebrill 2015 \(pdf 465KB\)](#).

Fodd bynnag, ymatalodd Aelodau'r Wrthblaid rhag pleidleisio ar nifer o welliannau yn ymwneud ag ychwanegu Rhan newydd at y Bil, yn darparu ar gyfer '**cymwysterau dynodedig**'. Gwnaed hynny oherwydd pryderon ynghylch ychwanegu elfen arwyddocaol newydd at y Bil heb ystyried y gwaith na chraffu arno yng Nghyfnod 1.

Fel y nodwyd eisoes yn y papur hwn, diben y ddarpariaeth i Cymwysterau Cymru ddynodi cymwysterau yw creu ffordd arall o wneud cymwysterau'n gymwys i gael eu cyllido drwy arian cyhoeddus yng Nghymru. Roedd Llywodraeth Cymru yn dadlau bod hyn **yn golygu na fydd yn rhaid i Cymwysterau Cymru ymgymryd â'r broses gymeradwyo lawn ar gyfer pob cymhwyster** cyn gynted â bod y corff newydd wedi'i sefydlu, gan leihau'r risg o amharu ar ddysgwyr a chan **hwyluso parhad**.

Ar ddechrau Cyfnod 3, ceisiodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg safbwyntiau pobl ar y darpariaethau newydd i ddynodi cymwysterau. Ni fynegwyd y Pwyllgor unrhyw wrthwynebiad cryf i'r darpariaethau newydd, ond nododd rhai o'r ymatebwyr y risgiau posibl pe bai dau gategori gwahanol o gymwysterau yn gymwys i gael eu cyllido drwy arian cyhoeddus.

O'r 21 o welliannau na chawsant eu cyflwyno gan y Llywodraeth, dim ond un a dderbyniwyd. Roedd y gwelliant hwn (Gwelliant 68) yn cryfhau'r gofyniad ar Cymwysterau Cymru i gynnwys manylion yn ei adroddiad blynyddol am sut y mae wedi ymgynghori â rhanddeiliaid yn y flwyddyn flaenorol.

Lluniodd Llywodraeth Cymru [Memorandwm Esboniadol diwygiedig \(pdf 1.13MB\)](#), yn adlewyrchu'r newidiadau a wnaed i'r Bil yng Nghyfnod 2.

7.3. Cyfnod 3

Trafodwyd 46 o welliannau gan yr Aelodau yn y Cyfarfod Llawn ar [16 Mehefin 2015](#). Cyflwynwyd 40 o'r rhain gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau. Roedd y mwyafrif helaeth o'r gwelliannau hyn naill ai'n gwneud **mân newidiadau** i'r Bil

neu'n deillio o ychwanegu Rhan 5 newydd i'r Bil ar ôl Cyfnod 2, sy'n darparu ar gyfer cymwysterau dynodedig. Cytunodd y Cynulliad â phob un o'r 40 o welliannau a gyflwynwyd gan y Gweinidog, a derbyniwyd 35 ohonynt yn unfryd.

Gwrthodwyd pump o'r chwe gwelliant a gyflwynwyd gan bleidiau'r wrthblaid, a phedwar ohonynt am fod yn rhaid i'r Dirprwy Lywydd ddefnyddio ei bleidlais fwrw yn erbyn y gwelliant yn unol â Rheolau Sefydlog y Cynulliad. Ni chynigwyd un o'r gwelliannau nad oedd wedi'i gyflwyno gan y Llywodraeth.

7.4. Cyfnod 4

Yn dilyn trafodaeth fer, cymeradwywyd y Bil terfynol gan yr Aelodau yn y Cyfarfod Llawn ar [16 Mehefin 2015](#).

7.5. Cydsyniad Brenhinol

Ar ôl i'r Cynulliad basio Bil yng Nghyfnod 4, gall Clerc y Cynulliad gyflwyno'r Bil i gael Cydsyniad Brenhinol, yn unol â *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*, ond dim ond ar ôl i'r 'cyfnod hysbysu' o bedair wythnos ddod i ben.

Yn ystod y cyfnod hwn, mae Deddf 2006 yn caniatáu i Filiau'r Cynulliad gael eu herio drwy un o ddwy ffordd:

- Cyfeiriad at y Goruchaf Lys gan naill ai Cwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cymru neu Dwrnai Cyffredinol Llywodraeth y DU.
- Gorchymyn a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwahardd Clerc y Cynulliad rhag cyflwyno Bil ar gyfer Cydsyniad Brenhinol.¹⁵

Ni chafwyd her o'r fath yn achos Bil Cymwysterau Cymru. Cafodd [Gydsyniad Brenhinol a daeth yn Ddeddf ar 5 Awst 2015](#).

¹⁵Hysbysiad Hwylus y Gwaanaeth Ymchwil, [Ailystyried Biliau'r Cynlluniad a basiwyd](#), Medi 2012

8. Trefniadau cychwyn a phontio

Yn unol ag adran 60, daeth rai rhannau o'r Ddeddf i rym ar y dyddiad y rhoddwyd **Cydsyniad Brenhinol (5 Awst 2015)**; bydd rhai eraill yn dod i effaith yn unol â'r gorchymyn cychwyn a wnaed gan Weinidogion Cymru.

Ym mis Gorffennaf 2015, darparodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau **ddiweddariad** ysgrifenedig i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar y **trefniadau cychwyn a phontio**. Dywedodd y Gweinidog fod swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio tuag at gychwyn darpariaethau'r Ddeddf yn y drefn ganlynol:

- y rheini a gyflwynir yn sgil Cydsyniad Brenhinol;
- y rheini sy'n gysylltiedig â sefydlu Cymwysterau Cymru ar ôl Cydsyniad Brenhinol, er mwyn gallu gwneud y gwaith paratoi angenrheidiol cyn y caiff ei weithredu'n llawn; ac
- y rheini a fydd yn **cychwyn swyddogaethau rheoleiddio Cymwysterau Cymru ar 21 Medi 2015**. Bydd rheoliadau ar gosbau ariannol yn cael eu cyflwyno'n ddiweddarach.

Mae **Prif Weithredwr dros dro, sef Philip Blaker**, wedi bod yn ei swydd ers mis Gorffennaf 2014¹⁶ ac mae'r Gweinidog bellach yn bwriadu penodi Mr Blaker fel **Prif Swyddog Gweithredol cyntaf** Cymwysterau Cymru. Bydd y sefydliad yn gyfrifol am benodiadau dilynol.

Mae'r Gweinidog hefyd wedi penodi **Bwrdd Cysgodol Cymwysterau Cymru**, gan benodi **Ann Evans yn Gadeirydd** ym mis Mawrth 2015¹⁷. Ms Evans yw cyn-Brif Weithredwr Gyrfa Cymru ym Morgannwg Ganol a Phowys, a chyn-Brif Weithredwr Cynorthwyol ACCAC (Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru gynt). Mae'r Gweinidog yn bwriadu penodi aelodau'r Bwrdd Cysgodol i Fwrdd Gweithredol cyntaf Cymwysterau Cymru.

Yn y diweddariad i'r Pwyllgor ym mis Gorffennaf, dywedodd y Gweinidog y canlynol hefyd:

- Mae dros 60 o **swyddi** yn agos at gael eu llenwi, gyda rhai swyddi wedi'u cynnig eisoes a chyfweliadau'n mynd rhagddynt. Disgwylir i 10 o swyddi eraill gael eu llenwi yn nes ymlaen eleni fel bod holl staff Cymwysterau Cymru yn eu lle, sef 74 o staff i gyd.
- Mae'r **brif swyddfa** ar gyfer Cymwysterau Cymru wedi'i lesio a'i dodrefnu.

¹⁶Llywodraeth Cymru, Datganiad i'r Wasg, [Cyhoeddi pennaeth newydd Cymwysterau Cymru](#), 7 Gorffennaf 2014 [fel ar 23 Gorffennaf 2015]

¹⁷Llywodraeth Cymru, Datganiad i'r Wasg, [Penodi Cadeirydd newydd i Fwrdd Cysgodol Cymwysterau Cymru](#), 13 Mawrth 2015 [fel ar 23 Gorffennaf 2015]

- Mae'r **seilwaith TGCh** bron wedi'i gwblhau ac offer TGCh wedi'i brynu. Prynwyd meddalwedd hefyd, sy'n cael ei ffurfweddu ar hyn o bryd, ac mae gwefan y sefydliad newydd yn cael ei datblygu'n barod i'w lansio.

Dyma rai o'r trefniadau pontio eraill y mae'r Gweinidog yn sôn amdanynt:

- Caiff unrhyw gorff dyfarnu a **gydnabyddir gan Weinidogion Cymru** ar hyn o bryd ei drin fel corff a gydnabyddir yn gyffredinol gan Gymwysterau Cymru. Bydd cyrff dyfarnu o'r fath yn cael cyfle i nodi unrhyw gymwysterau nad ydynt am gael cydnabyddiaeth gyffredinol ar eu cyfer ar ôl gan Gymwysterau Cymru.
- Bydd y rhan fwyaf o'r cymwysterau a restrir fel rhai cymwys i gael cyllid cyhoeddus yn y **Gronfa Ddata Cymwysterau Cymeradwy yng Nghymru** yn union cyn 21 Medi 2015, yn cael eu trin fel rhai a **ddynodwyd** gan Cymwysterau Cymru o'r dyddiad hwnnw tan y dyddiad adolygu cynharaf a nodwyd yn y gronfa neu 31 Awst 2018, pa un bynnag sydd gynharaf.
- Bydd y cymwysterau sy'n weddill yn y rhestr o'r rhai sy'n gymwys i gael cyllid cyhoeddus yn union cyn 21 Medi 2015 yn cael eu trin fel cymwysterau a **gymeradwywyd** gan Cymwysterau Cymru o'r dyddiad hwnnw tan y dyddiad adolygu a nodir yn y Gronfa Ddata. Y rhain yw'r **prif gymwysterau diwygiedig ar gyfer Cymru yn unig**: TGAU, Safon Uwch Gyfrannol, Safon Uwch, Bagloriaeth Cymru a Sgiliau Hanfodol Cymru.

9. Adolygu'r broses o weithredu'r Ddeddf

Yn y Memorandwm Esboniadol, mae Llywodraeth Cymru yn amlinellu'r pedwar prif faes y bydd y broses o adolygu a gwerthuso'r Ddeddf yn canolbwyntio arnynt.¹⁸

9.1. *Cyflawni swyddogaethau statudol Cymwysterau Cymru*

Mae'n rhaid i Cymwysterau Cymru gyflwyno **adroddiad blynyddol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru**, yn cynnwys gwybodaeth am sut y mae wedi cyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas â'i brif nodau a sut y mae'n bwriadu cyflawni'r swyddogaethau hynny yn ystod y flwyddyn ddilynol. Caiff yr adroddiad blynyddol cyntaf ei baratoi yn 2016.

Nid yw'r Ddeddf yn dweud sut yr eir ati i graffu ar yr adroddiad blynyddol, ond mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud y bydd y Cynulliad yn dwyn Cymwysterau Cymru i gyfrif, naill ai yn y Cyfarfod Llawn neu drwy Bwyllgor.

9.2. *Cyfrifoldeb Cymwysterau Cymru am adolygu'r system gymwysterau yng Nghymru, gan gynnwys ei rôl ei hun*

Mae adran 46(2) o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Cymwysterau Cymru adolygu'n gyson 'y **priod rolau sydd ganddo ef a chyrrff dyfarnu** mewn cysylltiad â system gymwysterau Cymru'. Mae Llywodraeth Cymru yn awgrymu y bydd hyn yn galluogi Cymwysterau Cymru i roi cyngor ar ba mor ymarferol fyddai iddo ddod yn gorff dyfarnu yn y tymor hwy, sef nod hirdymor sydd wedi'i ddatgan gan y Gweinidog.

Mae'r Ddeddf hefyd yn pennu prif nod ehangach i Cymwysterau Cymru, sef sicrhau effeithiolrwydd y system gymwysterau. At hynny, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd **adroddiad blynyddol Cymwysterau Cymru yn cynnwys dadansoddiad cyffredinol** o'r system gymwysterau yng Nghymru.

9.3. *Mesur hyder y cyhoedd yn system gymwysterau Cymru*

Ail brif nos Cymwysterau Cymru o dan y Ddeddf yw hybu hyder y cyhoedd mewn cymwysterau a system gymwysterau Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn dadlau y **bydd angen i Cymwysterau Cymru benderfynu ar y ffordd orau o fonitro hyder yn barhaus yn yr hirdymor**. Mae'n awgrymu bod hynny'n debygol o gael ei fesur drwy siarad â grwpiau rhanddeiliaid penodol.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi rhai dulliau byrdymor y gall Cymwysterau Cymru eu defnyddio i fesur hyder y cyhoedd, fel gweithio gyda'r uned noddi yn Llywodraeth Cymru a'r gwaith sy'n cael ei wneud i werthuso effaith gweithredu'r Adolygiad o gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru.

¹⁸Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Memorandwm Esboniadol \(fel y'i diwygiwyd ar ôl Cyfnod 2\), Bil Cymwysterau Cymru](#), paragraffau 318-336

9.4. Effeithiau sefydlu Cymwysterau Cymru

Uned noddi Llywodraeth Cymru fydd yn gyfrifol am adolygu effaith sefydlu Cymwysterau Cymru. Mae'n debygol y bydd yr **asesiadau effaith** a wnaed wrth ddatblygu'r Bil yn llywio'r gwaith hwn.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn egluro y bydd Llywodraeth Cymru yn **trosglwyddo'r asesuadau effaith hyn i Cymwysterau Cymru**, a fydd yn penderfynu a ddylid eu defnyddio fel rhan o'i waith adolygu a gwerthuso parhaus, ac os felly sut.